

Mae rhai pethau ar gau

“Yr wyf yn fwy deallus na’ m holl athrawon, oherwydd bod dy farnedigaethau’n fyfyrddod i mi.” (adn. 99)

Beth am ddarllen Salm 119:–97–104 ac yna myfyrio

Wedi inni ymrwymo i fod yn bobl o ragoriaeth foesol, y peth nesaf sydd ei angen arnom yw gwneud pob ymdrech i ychwanegu ‘gwybodaeth’ at ein ffydd, yn ôl yr apostol Pedr (2 Pedr 1:5). Ond pa fath o wybodaeth? Gwybodaeth fydol, gwybodaeth academiaidd? Na, yr hyn yr oedd gan Pedr mewn golwg, dybiaf i, oedd gwybodaeth ysbrydol, yr wybodaeth sydd yn dod drwy berthynas glos gyda Duw a’i Air. Mae’r gair Groeg am wybodaeth (*gnosis*) yn air sydd yn delio â gwybodaeth ymarferol sydd yn ei gwneud yn bosibl i berson wneud y penderfyniadau iawn ac i gymhwyso yr egwyddorion iawn. Mae William Barclay yn disgrifio hyn fel y math o wybodaeth sydd yn ein cynorthwyo ni i ymddwyn yn anrhydeddus ac yn effeithiol yn amgylchiadau dydd i ddydd ein bywyd.

Beth am esiampl o fyd cynghori Cristnogol, byd sydd yn dal diddordeb arbennig i mi. Rwy’n cofio cynghorwraig yn dweud wrthyf unwaith am ffordd o ddelio gyda phobl oedd yn fy ngolwg i yn gwbl anysgrhythurol. Pan fu i mi nodi hynny, ei hymateb oedd: “Ond, mae’n gweithio.” Yn sicr, nid y cwestiwn yw, “A yw hyn yn gweithio?” ond “A yw hyn yn iawn?” Mae’r math yma o bragmatiaeth i fod yn rhywbeth y dylem ochel rhagddo. Yr unig ganllaw diogel yw geiriau Duw a’r egwyddorion hynny mae’n eu gosod ar gyfer byw bywyd effeithiol dros yr Arglwydd yn y byd.

Yn y testun heddiw, mae’r salmydd yn cyhoeddi mai myfyrio ar Air Duw sydd wedi peri fod ganddo fwy o ddirnadaeth na’i athrawon i gyd. Fe roddodd yr Ysgrhythur iddo’r dirnadaeth yma oedd yn ei gynorthwyo i weld tu hwnt i’r hyn sydd yn amlwg mewn bywyd ac i weld i mewn i galon pethau. Mae rhai pethau yn y bydysawd yma sydd yn gwbl gaeëdig i feddyliau secwlar.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 119:89–96; 119:105–112; 119:129–144

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw manteision astudio Gair Duw?
2. Ar beth oedd bryd calon y salmydd?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i ddeall fod dy waith di yn dadlennu dy Air, yn rhoi goleuni, goleuni na allaf ei dderbyn o unrhyw ffynhonnell arall. Cynorthwya fi i gerdded yn y goleuni hwnnw yn araf ac yn ofalus. Yn enw Iesu. Amen.